# Holiadur cyn-arolygiad – Rhiant / gofalwr (Prif)

## 1.

Fel rhiant/gofalwr, rhowch eich barn i ni am ysgol eich plentyn. Darllenwch bob datganiad gan ystyried eich profiadau eich hun a thiciwch y blwch sy'n cyfateb orau i'ch barn. I rai cwestiynau, cewch gyfle i esbonio pam y dewisoch chi'r ateb hwnnw, os hoffech wneud hynny.

Mae eich barn yn bwysig i ni. Byddwn yn defnyddio eich atebion i'n helpu i ddeall eich barn am ysgol eich plentyn. Gallem ddefnyddio eich atebion chi ac atebion rhieni/gofalwyr eraill i'n helpu i ddeall beth yw barn rhieni/gofalwyr am ysgolion ar draws Cymru.

Mae barn rhieni a gofalwyr yn rhan werthfawr o'n proses arolygu ysgolion. Hoffem annog pob rhiant/gofalwr i rannu eu barn am ysgol/UCD eu plentyn trwy ein holiadur i rieni/gofalwyr. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cael amser cyn yr arolygiad i ddarllen eich sylwadau a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r tîm arolygu.

Mae holiaduron ar gael mewn nifer o ieithoedd ac mae blwch testun agored ynddynt i chi rannu adborth mwy penodol. Gallwch fod yn dawel eich meddwl bod yr adborth yn gyfrinachol i Estyn ac y bydd ar gael i'r tîm arolygu yn unig.

Hefyd, byddwn yn cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb byr i rieni/gofalwyr ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Os na allwch rannu eich barn trwy'r holiadur, mae croeso i chi ymuno â'r cyfarfod byr hwn.

Mae'r holiadur yn ddienw. Mae eich ymatebion yn gyfrinachol ac nid ydym yn gofyn am eich enw.

Bydd arolygwyr Estyn:

- yn darllen eich atebion
- byth yn datgelu eich atebion unigol i ysgol eich plentyn nac i unrhyw un arall y tu allan i Estyn. Yr unig amser pan y gallem ni rannu gwybodaeth gyda phobl eraill yw os oes gennym ni bryderon am ddiogelwch dysgwyr.

Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel yn ein cronfeydd data yn unol â'n polisi ar gadw data.

**I gael gwybodaeth am sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: [Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)]**

## 2.

### 1. Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon

- ☐ Bob amser
- ☐ Yn aml
- ☐ Ambell waith
- ☐ Byth

## 3.

### 2. Fe wnaeth yr ysgol helpu fy mhlentyn i setlo'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

## 4.

### 3. Rwy'n credu bod fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol

- ☐ Bob amser
- ☐ Yn aml
- ☐ Ambell waith
- ☐ Byth

## 5.

### 4. Rwy'n credu bod yr ysgol yn delio ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn dda

- ☐ Bob amser

- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

## 6.

**5. Mae’r ysgol yn cynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol i fy mhlentyn, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

## 7.

**6. Mae fy mhlentyn yn cael y cymorth ychwanegol y mae ei angen arno/arni**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn berthnasol

## 8.

**7. Mae’r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i mi am gynnydd fy mhlentyn**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

## 9.

**8. Mae’r ysgol yn ystyried fy marn a fy adborth, ac yn ymateb iddynt os oes angen**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

## 10.

**9. Os ydw i'n rhannu problemau neu faterion gyda'r ysgol, mae arweinwyr yn ymateb ac yn delio â nhw'n briodol**

- ☐ Bob amser
- ☐ Yn aml
- ☐ Ambell waith
- ☐ Byth
- ☐ Ddim yn berthnasol

## 11.

**10. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth bwysig gyda fi yn amserol ac yn glir**

- ☐ Bob amser
- ☐ Yn aml
- ☐ Ambell waith
- ☐ Byth

## 12.

**11. Byddwn i'n argymell yr ysgol hon i riant/gofalwr arall**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

## 13.

**12. Os hoffech chi esbonio unrhyw rai o'ch ymatebion neu os oes unrhyw beth arall ddylai'r tîm arolygu wybod amdano yn eich barn chi, defnyddiwch y lle gwag hwn**